Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 27 HYDREF 2008

Braf yw gweld arddangosfa ***'Gwledydd'*** yn ei le erbyn hyn. Yr wyf eisoes wedi sôn wrthych am y darn o gelf sy'n disgwyl eich cyfraniadau chi, ond cofiwch alw mewn i weld y darnau eraill hefyd – bosib ddowch chi o hyd i anrheg 'Dolig ymysg y darnau sydd ar werth!

Cofiwch hefyd am y ddrama ***'The Other Woman'*** sy'n cael ei pherfformio yma nos yfory (29 Hydref) - mae'n dechrau am 7.30 ac mae tocynnau'n costio £6 (£4 gostyngol). Mae'n ddrama bwerus sy'n edrych ar oblygiadau rhyfel a sut y mae'r bobl sy'n cael eu gadael ar ôl yn dod o hyd i ffyrdd i ymdopi mewn amseroedd caled iawn.

Y digwyddiad pwysicaf nesaf gan Morlan yw anerchiad gan Syr Emyr Jones Parry (cyn-gynrychiolydd Prydain yn y Cenhedloedd Unedig a Llywydd Prifysgol Cymru Aberystwyth) ar y thema ***'Pam fod dal angen y CU ar ôl 60 mlynedd'***. Bydd yn annerch yn Saesneg ond bydd cyfle i holi cwestiynau ar y diwedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Dyma gychwyn ar gyfres o ddigwyddiadau y mae Morlan yn ei threfnu i ddathlu chwedegmlwyddiant y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, sy'n cynnwys:

- Nos Fercher, 3 Rhagfyr: *"60 Mlynedd o Hawliau Dynol?"* – noson gymdeithasol o drafod a chanu gyda Chôr Gobaith (y noson hon wedi'i threfnu ar y cyd rhwng Morlan, cangen leol Amnest Rhyngwladol a Chôr Gobaith)
- Nos Fercher, 10 Rhagfyr: *"Canu dros Hawliau Dynol"* – gig gyda Gruff Rhys ac Euros Childs (wedi'i anelu ar gyfer pobl ifanc 15-18 oed)
- Nos Sadwrn, 13 Rhagfyr: "*O Blith fy Mhobl"* – cyflwyniad gan Gwmni'r Morlan

Nodir isod gweddill y digwyddiadau sy'n cymryd lle ym Morlan dros yr wythnosau nesaf.

- Dydd Wener, 31 Hydref: **Parti Gwrth-Galan Gaeaf** wedi'i drefnu gan Eglwys Sant Mihangel (dim manylion pellach ar gael)
- 10.30-12.30, dydd Sadwrn, 8 Tachwedd: **Bore Coffi** i godi arian i alldaith criw o fechgyn lleol i Dde America i gynorthwyo â phrosiectau trydydd byd
- 10.30-4.00, dydd Sadwrn, 15 Tachwedd: **Cynhadledd Genedlaethol Amnest Rhyngwladol Cymru** yn cynnwys anerchiadau a gweithdai a pherfformiadau gan Gôr Gobaith a Samba Agogo
- 6.00, nos Sul, 16 Tachwedd: **Gwasanaeth Amnest** (arwyddo cardiau Nadolig i garcharorion cydwybod)
- 11.00-4.00, dydd Gwener, 21 Tachwedd: **Gwneud y Cysylltiadau (gan gynnwys Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CAVO)** – manylion pellach ar hysbysfwrdd Morlan, neu ffoniwch CAVO (01570-423232)
- 7.30, nos Lun, 24 Tachwedd: **Dweud ei Ddweud** gyda'r Parch. Gwynn ap Gwilym ar y thema ***'Y Rhwyg yn yr Eglwys'***
- 2.00-5.00, dydd Mercher, 26 Tachwedd: **Fforwm Pobl 50+** (Cyngor Sir Ceredigion)
- 7.00, nos Fercher, 26 Tachwedd: **Trafodaeth ar ryfeloedd** (Iraq, Afghanistan ...) a sut mae rhoi terfyn arnynt. Cadeirydd: Cynog Dafis (trefnwyd gan Rwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth)

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr